Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH | HYDREF 1977 | RHIF 43

HŶN NID HÊN

Os ych chi am wireddu y dywediad, "Mynd yn hŷn heb fynd yn hen" ewch i weld Mrs. Idris Lewis yn "Cartref", Llanishen.

Mae llawer yn ardal Caerdydd yn cofio Idris Lewis — penaeth Adran Gerdd y B.B.C. am rai blynyddoedd ar ôl y Rhyfel diwethaf, a chyfansoddwr llawer o ganeuon swynol a phoblogaidd — "Can yr Arad Goch", "Llanstephan", a "Bugail Aberdyfi", — i enwi un neu ddwy.

Bu Mr. a Mrs. Idris Lewis yn byw yn Rhiwbina am beth amser cyn cartefu yn Penhill, ac aelodi yn Eglwys Salem, Canton.

Ann Pierce oedd Mrs. Idris Lewis, cyn priodi, wedi ei geni a'i magu yn Hampstead Heath, Llundain — y teulu yn dod yn wreiddiol o gylch Aberystwyth. Gwerthu llaeth "Cymraeg" i drigolion Llundain 'roedd tad Ann, a gwaith caled oedd hwnnw, yn enwedig yn ystod blynyddoed Rhyfel 1914-18, pan alwyd y bechgyn i'r fyddin, ac Ann yn codi am 3 a 4 o'r gloch y bore, a chludo'r llaeth gyda cheffyl a chert hyd strydoedd Llundain.

Teulu crefyddol a cherddorol oedd teulu Ann. 'Roedd hi yn bianydd penigamp, a'r teulu'n eglwyswyr, pryd hynny yn aelodau gydag Eglwys Gymraeg, Paddington. Cafodd Ann gryn lwyddiant ar gystadlu ar y piano, cyn iddi gael ei derbyn i'r Academi Frenhinol, Llundain lle y cwrddodd ag Idris Lewis — a dyna Miss Ann Pierce yn mynd yn Mrs. Idris Lewis.

Erbyn hyn, mae Mrs. Idris Lewis wedi symud o Penhill i'r "Cartref" yn Llanishen — ac yn mynd i'r gwasanaeth bore Sul yng Nghapel y Bedyddwyr, Llanishen.

Pleser oedd cael cwrdd â hi unwaith eto. Mae mor ifanc ei ffordd a gwen barhaus ar ei hwyneb. Anfonwn ein cyfarchion o Salem — ac 'rwyn siwr, cyfarchion oddiwrth holl ddarllenwyr y "Dinesydd" — at Mrs. Idris Lewis, gan ddymuno penblwydd hapus iddi yn 90 oed.

EDWIN LLOYD JONES

HAWLIO

Tybed a gafodd rhywun arall drafferth wrth ofyn am *ffurflen Gymraeg* yn y swyddfa Nawdd Gymdeithasol leol? Oherwydd fod fy mhriod yn disgwyl plentyn bûm yn y Swyddfa uchod yn gofyn am ffurflen gais Gymraeg at gael grant. Dywedodd y ferch, yn blwmp ac yn blaen, nad oedd ffurflen Gymraeg ganddynt ac er galw wedyn nid oedd wedi gwneud ymdrech i gael un. Yn wir, fe geisiodd fy mherswadio i gymryd un Saesneg. Wrth dynnu sylw at y difaterwch amlwg, rhaid cyfeirio at agwedd sarhaus y ferch tuag at yr iaith Gymraeg. Hefyd, fe honnai mai fi oedd yr unig berson yng Nghaerffili a oedd yn ei phoeni am ffurfleni Cymraeg *mewn unrhyw faes.*

Yn y man fe fydd llad-merydd swyddogol yn dweud nad oes angen ffurflenni Cymraeg. Y gwir yw fod aelodau o'r Staff yn dweud nad oes rhai ar gael ac yn gwthio ffurflenni Saesneg arnom.

Hoffwn annog darllenwyr y DINESYDD i ddyfalbarhau ac i sefyll dros eu hawliau. Erbyn hyn *mae* ffurflenni Cymraeg ar gael yn y swyddfa yng Nghaerffili. Felly dal ati a mynnu ffurflenni Cymraeg bob tro yw'r ateb.

DENZIL IEUAN JOHN.

Un tŷ, ymhlith llawer, sy'n cael ei wastraffu. Gweler stori tud. 7.

AROLWG AR WRAGEDD

Yn ôl arolwg a wnaethpwyd yn ddiweddar nid yw gwragedd yn meddwl am ddim ond tai, bwyd a phlant — yn y drefn yna! Dywedir fod gwragedd, yn enwedig rhai priod, dan straen beunyddiol oherwydd effaith un o'r tri yma arnynt.

Yn wir, gwelir rhai gwragedd yn cael eu gyrru i ddistryw bron wrth iddynt geisio dyfeisio bwydlen atyniadol i blesio'r teulu, tra bod eraill yn llusgo'u traed ddydd ar ôl dydd o amgylch y siopau yn chwilio am ddeunydd neu gelficyn addas. Gwyddom i gyd, wrth gwrs, am yr amynedd dibendraw sydd ei angen i fagu plant!

Tybed a ydyw gwragedd Caerdydd yn ffitio i'r un categori? Mae cyfle gwych i drafod cwestiynnau fel hyn wedi ei drefnu gan Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol. Bydd y cwrs yn ceisio darganfod beth yw safle'r wraig yng Nghymru — ymhob maes. Hefyd ymdrinir â'r darlun a geir o'r wraig yn y cyfryngau torfol a'n llenyddiaeth. Mae cyfle i drafod hyn drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn gaffaeliad, a dylem i gyd gefnogi'r ymgais.

SAFLE'R WRAIG YNG NGHYMRU.

Adeilad y Dynoliaethau, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

TIWTOR: Gwen Awbery a Brec'hed Piette.

Cyfarfod 1af: Hydref 6ed. 7 - 9 o'r gloch.

Bydd y cwrs yn cynnwys 10 cyfarfod.

O'R POST

Annwyl Olygydd,

Ar ôl Steddfod Wrecsam roeddwn i wedi trefnu gwyliau i'r teulu yn y Brifddinas. Gan mai newydd fod yn y Steddfod oeddwn i yr oedd hi'n naturiol mai dyma oedd ar fy meddwl o hyd wedi inni gyrraedd Caerdydd.

Felly, ar ôl sgwrsio gyda hwn a'r llall, cefais gyfarwyddiadau (pur ddyrys) ynglŷn â sut i gyrraedd Maes Y Genedlaethol flwyddyn nesa. 'Doedd dim arall i'w wneud ond mynd ar f'union i wneud archwiliad brysiog o'r safle.

Ar ôl trafeilio saith milltir, a gadael y Brifddinas ymhell o'm hôl, cyrhaeddais gyrion gwyrddlas Llanedyrn. A dyna ble'r oedd y safle, o fewn tafliad carreg, bron, i'r 'Post House Hotel'.

Bu digon o gwyno ynglŷn â'r safle yn Wrecsam. Roedd hwnnw tua tair milltir o ganol y dre. Wyddai neb yn y dre am fodolaeth yr Eisteddfod ac, os oeddynt yn gwybod, nid oeddynt yn arddel yr Wyl yn ffenestri'r siopau.

Pa obaith sydd felly i Eisteddfod Caerdydd? Mae'n bur anghebygol y bydd pobl Llanedyrn, hyd yn oed, yn gwybod am ein Steddfod, heb son am drigolion Sblott neu Drelai. Pam ar y ddaear gafodd y Steddfod ei gwthio i le mor anghysbell? Yr ateb gefais i oedd mai ar Glwb Carafanwyr Cymru mae'r bai. Yn ôl pob tebyg mae cynrychiolaeth gref ohonynt ar Bwyllgor y Steddfod. Hefyd, wrth gwrs, dyma'r unig safle ble y gellid cael maes carafanau yn agos i Faes y Steddfod.

Rwyf yn cydymdeimlo â Chaerdydd yn dechrau â'r fath lyffeithair ac yn rhyfeddu fod y Pwyllgor yn cael ei ddylanwadu gan y lleiafrif yma. Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru yw'r Wyl — nid rhyw sioe ar gyrion Rali Clwb Carafanwyr Cymru.

Yn bryderus,
Rhywun o bell.

ANNWYL OLYGYDD,

Dyma fi'n llefaru o anialwch pen ucha Cwm Ysgwydd Gwyn, Canol Morgannwg. Pur anaml y bydda i'n sgwennu i'r press — fedra i yn fy myw gofio'r gair Cymraeg. Wnes i ddim hoffi rhifyn Medi o'r Dinesydd. Mawr obeithiaf na dderbyniaf rifyn eto a chymaint o naws y capel arno, fu bron i mi a dweud fod ogla tamprwydd arno!

Creadur y byd ydw i welwch chi ac mae petha capal yn mynd dan fy nghroen i — falla rhyw ddydd y sgwennaf 'article' am y peth.

Rwy'n mawr obeithio y bydd y bobol sy'n mynychu tafarna a chlybie Caerdydd yn gwrthod yn lan a dosbarthu y papur o hyn ymlaen os ydy o'n mynd yn rhy gapelyddol. Mae bywyd yn beth eang yn tydi?

Yn gywir,

D.O. JONES.

(Dyma her na all yr un person sy'n mynychu'r tafarnau a'r clybiau ei anwybyddu — GOL.)

TÊ?

Ar yr ail ddydd Mercher ym mhob mis, gan ddechrau ar Hydref 12 fed, mae'r tegell ar y tân yn Festri Capel Salem, y byrddau wedi eu gosod a chriw o'r aelodau'n barod yno gyda'u croeso.

Croeso i bwy? I bawb sy'n rhydd i ddod ac awydd am sgwrs a phaned, yn arbennig y rhai sy'n tynnu 'mlaen ac ychydig yn gaeth yn eu cartrefi.

Does dim problem ynglŷn â chyrraedd y Capel — fe ddaw'r aelodau yn eu ceir i'ch codi. Y cyfan sydd ei angen yw rhoi galwad i Mrs. Doreen Thomas, y rhif ffôn yw Caerdydd 565105, ac fe wnaiff hi'r trefniadau.

Cofiwch y dyddiad — yr *ail* buawn Mercher ymhob mis. Dewch yn llu, yn wragedd a dynion!

UCAC

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

yw'r *unig Undeb*
sydd â'i bencadlys yng Nghymru
sy'n buddoeddi ei arian i gyd yng Nghymru
sy'n *unfryd, unfarn* o blaid addysg Gymraeg
sy'n credu fod Cymru'n genedl
sy'n rhoi buddiannau plant ac athrawon Cymru'n *gyntaf*

Sut yn y byd gall athrawon sy'n Gymry gwlatgar berthyn i unrhyw Undeb arall?

UCAC, 11 Heol Gordon,
Caerdydd, CF2 3AJ.
Ffôn: 494692.

Bydd y RHIFYN NESA o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar y 9fed O DACHWEDD. Deunydd ar gyfer y rhifyn erbyn 26 HYDREF, man pella, os gwelwch yn dda.

Y cyfeiriad yw:
3 HEOL CAERDYDD,
FFYNNON DAF,
CAERDYDD.

CALENDR

HYDREF

9 Capel Tabernacl GYMANFA GANU GYHOEDDUS a recordir CÔR YR EISTEDDFOD 7.30.
11 BEIRDD Y TRISKEL darlleniadau o waith Shennagh Pugh, Bramwell Jones a Tom Dressel ORIEL 1.00p.m.
15 Mudiad Meithrin — TRÊN LLUNDAIN.
23 ACADEMI GYMRAEG Darlleniadau o farddoniaeth Phillip Owens, Peter Thabit Jones, John Freeman, Caneuon gan Geoffrey Cripps ORIEL 8.00p.m.
25 Cwmni THEATR CYMRU DRWS PRIODAS Drama ar fywyd a gwaith Pantycelyn 7.30 Canolfan, Penyrheol, Caerffili.

TACHWEDD — Dyfodol

8 Merched y Wawr, Caerdydd. "Arthur Heddiw yn fyw" Athro Dewi Prys Thomas CANOLFAN YR URDD 7.30.
10 Noson gyda Harri Webb i ddathlu cyhoeddi ei lyfr — "Rampage and Ravel". Caneuon gan "Ar Lôg" ac Olwen Rees.
11 Cymdeithas Gymraeg Caerffili. Ymweld â chymrodorion Dowlais i gynnal NOSON LAWEN.

PROTEST

Ffurfiwyd pwyllgor i wrthwynebu cynlluniau Steetley i ymestyn y chwarel yng Nghoed y Garth. Cawsom gefnogaeth y mwyafrif llethol o drigolion Heol Berry, Heol Nant, Nant-y-Garth, Georgetown a Heol Gwaelod-y-Garth. Honnwyd yn ddiweddar fod y mwyafrif yn yr ardal hon yn cefnogi'r cynnig i ymestyn y chwarel. Dengys ein harolwg fod hynny'n anghywir.

Y mae Swyddog Cynllunio Sir Morgannwg Ganol yn bendant yn erbyn y cynnig. Fe sydd wedi ei benodi gan Awdurdod Morgannwg Ganol i roi cyngor broffesiynnol ar bob cynnig cynllunio. Astudiodd yr holl dystiolaeth a'r holl ddadleuon dros ac yn erbyn yr ymestyniad. Dyma'r hyn mae e'n ei ddweud:-

1. Fe effeithir ar ein tai gan sŵn, sioc y tanio a llwch.
2. Fe fyddai'n difetha harddwch ein pentref.
3. Fe fyddai'n distrywio coedwig hynafol unigryw na ellir ei hailosod.

Elw Steetley yn unig fydd yn dioddef pe gwrthodid y cynnig, ond petai'n cael ei dderbyn, fe welwn domen o sbwriel lle bu coedwig hardd.

Os nad ydych am weld hyn, dewch i gysylltiad â'r chanlynol ac arwyddwch y ddeiseb a drefnir ganddynt:-
T.Williams Heol Caerdydd Ffynnon Taf.
E.Phillips 8 Georgetown.

MWY O NWY

Ydych chi wedi cael bil Nwy'n ddiweddar? Os ydych chi yna mae'n siŵr ichi sylwi ei fod ar ei newydd wedd. Er dechrau mis Medi mae NWY CYMRU's anfon biliau dwyieithog i bawb.

Cyn y datblygiad diweddar yma yr oedd pawb yn derbyn biliau uniaith Saesneg, oni bai fod gorchymyn parhaol am rai Cymraeg. Y ffaith warthus yw fod tua *1,520,000* o filiau wedi cael eu hanfon bob blwyddyn a dim ond *588* o'r rhain oedd yn Gymraeg.

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru.

CYSYLLTWCH Â'R CALENDR CANOLOG —

*** os rydych eisiau hysbysebu eich cymdeithas, cyfarfod neu ddigwyddiad yn 'Y Dinesydd'.**

*** os rydych yn bwriadu trefnu rhyw achlustur yng Nghaerdydd — er mwyn osgoi gwrthdrawiad mewn dyddiadau.**

Yn ddiymdroi cysylltwch â Mallt Anderson, 158 Ffordd Ddwyreiniol y llyn, Glan y Llyn, Caerdydd. FFON: 753695.

Newyddion Eisteddfodol

Mae ceisiadau am lety ar gyfer wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol (Awst 7 - 12, 1978) yn llifo i mewn. Nid oes pryder ynglŷn â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r Wyl. Yr unig bryder yw sicrhau digon o le iddynt aros.

Ar ôl prysurdeb mawr yn Eisteddfod Wrecsam, lle'r oedd yr ysgrifenyddion wedi 'gwerthu' llety a derbyn dros £1,600 o arian mewn blaendal, nid yw ffrwd y ceisiadau wedi peidio. Y mae'r gwestai, y tai preifat a'r hostelau yn llenwi'n gyflym. Mae'r hostelau yn boblogaidd iawn, yn enwedig y fflatiau 'hunan-ddarpar', sy'n ddelfrydol i deuluoedd. Mae un hostel (lle'r oedd gwelyau i wyth) eisoes wedi ei llenwi, ac un arall (fflatiau i bump) yn gyflym yn cael eu gosod ar gyfer ymwelwyr. Os digwedd eich bod yn gwybod am rywun sydd eisiau un o'r rhain, y pris yw £70 am yr wythnos. Mae gwely a brecwast ar gael mewn hostelau eraill am £5 y noson.

Ar hyn o bryd mae aelodau'r pwyllgor yn ymweld â'r gwestai, am yr ail dro, gan fod rhai ohonynt yn llawn yn barod. Hefyd maent yn mynd o ddrws i ddrws yn ardal Pentwyn i geisio lle cysurus a chyfleus i'r ymwelwyr.

Y bwriad yn awr yw holi ymhlith aelodau'r capeli, yn Gymry a Saeson. Yr ydym yn awyddus i bawb sy'n gallu ein cynorthwyo i gael eu rhestru yn ddi-oed.

A garech chwi helpu trwy gynnig gwely a brecwast, ac *efallai* pryd o fwyd yn gynnar yn y nos? Gellwch gael y manylion am y tâl oddi wrth ein swyddogion. Byddwch ar eich ennill wrth wneud ffrindiau newydd, a dod i wybod am fywyd ac ardaloedd diddorol tu allan i Gaerdydd. Bydd yr ysgrifennydd yn falch i gael gair â chwi. Dyma'r cyfeiriad: Mrs. T. M. Evans, Hafan, Heol Caerdydd, Creigiau. Ffôn: 890336. Edrychwn ymlaen at glywed oddiwrthych. Gan ddiolch i chi ymlaen llaw.

Eirene Anthony Davies,
Cadeirydd y Pwyllgor Llety a Chroeso.
Ffôn: 751691.

Y STAFF

Ydych chi wedi cael cyfle eto i alw yn Swyddfa'r Eisteddfod yn Windsor Place? Mae llawer yn galw yno y dyddiau hyn, pobl yn awyddus i gael tocynnau wythnos ar gyfer yr Eisteddfod, i sicrhau seddau da ar gyfer yr cystadlu, y cyngherddau a'r dramau. Pan fyddwch chi'n galw yno fe gewch chi groeso cynnes a phob help gan y Trefnydd, Mr Idris Evans, a'i gynorthwywyr.

Mae yno bedwar heblaw Mr Evans ei hun. Y trefnydd cynorthwyol yw Ifor ap Gwilym, sy'n dod o Fachynlleth, yn fab i'r Parchedig William Williams sy'n weinidog gyda'r Presbyteriaid yno. Cafodd radd mewn Cerddoriaeth yng Ngholeg Bangor, ac mae'n ysgrifennu ar bynciau cerddorol i *Barn* a *Welsh Music*. Hon yw ei ail Eisteddfod fel trefnydd cynorthwyol, gan iddo ymuno â'r staff cyn Eisteddfod Aberteifi. Roedd honno yn Eisteddfod dda i Ifor, oherwydd yn Aberteifi mae cartref Mererid Davies, sy'n awr yn aelod o Uned Heddiw yn y BBC yn Llandâf. Bydd y ddau yn priodi ddiwedd mis Hydref.

Bu Mrs Gwyneth Jones yn gweithio rhan amser yn Swyddfa'r Eisteddfod y llynedd, ond erbyn hyn mae'n aelod amser llawn o'r Staff yn Windsor Place. Mae hi yn enedigol o Frynrefail ac yn byw yn Llysfaen. Mae'n briod â Stan Jones sy'n rheolwr technegol yn y BBC. Mae ganddyn nhw bedwar o blant — Rhian, Bethan, Dilwyn ac Iwan.

Un o Lanrwst yw Gwawr Dafydd, sy'n ferch i Dafydd Parry, awdur llyfrau'r "Llewod". Daeth hi i weithio yn y Swyddfa ym mis Mehefin ar ôl gorffen ei chwrs yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth a Choleg Cartrefle, Wrecsam. Pan ofynnir iddi beth yw ei diddordebau yng Nghaerdydd y tu allan i waith y Swyddfa, yr unig ateb a geir ganddi yw 'cymdeithasu' — ac mae'n gwrthod helaethu! Ond mae Gwawr yn cyfaddef ei bod yn hiraethu tipyn am y Gogledd.

Gyda gofal tri o fechgyn ysgol — Andrew, Michael a Steven, yn rhan amser yn unig y medr Mrs Joan Bumford ddod i'r Swyddfa. Merch o Crosshands yw Joan, mae'n briod â David Bumford, ac yn byw yn Lôn Werdd, Sain Ffagan.

Mae Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn cynnwys nifer o eitemau o ddiddordeb i'r rhai sy'n DDYSGWYR.

Yn yr adran lenyddiaeth, gofynnir am ddyddiadur gwyliau (tua 2000 o eiriau). Mr. Dan Lyn James yw'r beirniad, ac mae'r wobr gyntaf yn £25, yr ail yn £15, a'r drydedd yn £5.

Trefnir hefyd arholiadau i ddysgwyr dan 15 oed, a than 18 oed, arholiadau sydd i'w seilio ar YR EISTEDDFOD gan Hywel Teifi Edwards (Gwasg Gomer 1976), a Hywel Teifi Edwards fydd yn beirniadu. Rhaid anfon enw a dyddiad geni pob ymgeisydd i'r Trefnydd erbyn Mawrth y 1af, 1978, a cheisir trefnu'r arholiadau ym mis Ebrill. Tocynnau llyfrau fydd y gwobrau.

Yn yr adran adrodd, mae tair cystadleuaeth i ddysgwyr — adrodd i rai dros 18 oed, adrodd i rai dan 18 oed, a chyflwyniad llafar i gôr o ddysgwyr.

Y darn prawf dros 18 oed yw detholiad o 'MORGANNWG' T. Llew Jones, a dylid anfon at Swyddfa'r Eisteddfod am gopiau. I ddysgwyr dan 18 oed y darn prawf yw unrhyw gerdd allan o UGAIN O GERDDI gan T. H. Parry-Williams,

Thema'r cyflwyniad llafar fydd CYMRU.

I bwrpas bob un o'r cystadlaethau uchod, disgrifir 'dysgwr' fel un a fabwysiadodd yr iaith Gymraeg yn hytrach na'i hetifeddu.

Mae un cystadleuaeth arall yn y Rhestr Testunau a fydd o ddiddordeb arbennig i athrawon a phawb arall sy'n ymwneud â dysgwyr. Yng nghystadleuaeth Rhif 30 gofynnir am Ddetholiad o Chwedlau'r Oesoedd Canol wedi eu diweddaru, a fyddai'n addas at waith Safon Uwch (Ail iaith). Disgwylir geirfa ddethol ar waelod pob tudalen, ynghyd â geirfa gyflawn yn y cefn ac esboniadau ar bwyntiau iaith a chynnwys. Mae gwobr o £100 i'r enillydd, a'r beirniad yw'r Dr. R. M. Jones.

Mae amodau a manylion llawn am y cystadlaethau i gyd yn y Rhestr Testunau sydd ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Windsor Place, Caerdydd, am 50c. (Drwy'r post 70c).

AR DAITH

Annwyl Ogleddwyr Croesawgar,

Rwy'n teimlo fod yn rhaid i mi ysgrifennu atoch ar unwaith gan gymaint y cyffro rwy'n ei deimlo ar ôl bod yn gweld perfformiad Cwmni Theatr Cymru o "SAER DOLIAU". Mi gafodd effaith fawr arna i!

Doeddwn i ddim wedi bod ar gyfyl unrhyw theatr ers blynyddoedd, ond allwn i ddim peidio â mynd i weld yr hen ddrama yma ar ôl iddi gael ei hatgyfodi. Rydych chwithau yn siŵr o roi cefnogaeth llwyr iddi tua'r Gogledd yna, fel arfer, theatr Gymraeg yn fyw, wyddoch chi.

Gaf i'ch rhybuddio chi, Ogleddwyr clên, rhag ofn i chi glywed gan rywun arall, fod 'na rai pobl blaenllaw yma yng Nghaerdydd wedi 'Boicotio'r' perfformiad. "Rhag dinistrio'r atgof berffaith a greodd y perfformiad cyntaf", oedd rheswm un gŵr hynaws. Felly byddwch chwithau'n barod i ddelio â'r fath ymresymu doeth!

Er i mi fwynhau'r perfformiad yn y Sherman mi deimlas i gywilydd *mawr* yno! 'Doedd yno ryw lawer o hetiau Gymanfa lliwgar yn gorlifo dros y seddau i gyd! A minnau wedi rhuthro allan yn fy scarff red, whyit an blŵ. Roedd steil rhai o'r hetiau yma'n tynnu dŵr o'm dannedd i cofiwch — gwerth chweil! Rhag i chwithau gael yr un profiad rwy'n eich *siarsio* i dynnu eich hetiau Gymanfa o'u bocsus, yn barod at y perfformiad.

Ond, O gywilydd *gwaeth* ar ôl y perfformiad! Roedd rhywun caredig wedi trefnu anferth o ffîd ar ôl y ddrama; cefais gip arno — blasus dros ben! (Ac mi roedd yr hetiau Gymanfa yn cael sipian gwîn hefyd). Mi roeddwn i, erbyn hynny, yn llwglyd iawn ond feiddiwn i ddim dangos fy ngwyneb yn y fath le yn fy stad anghymdeithasol. 'Doeddwn i wedi dod heb fy *ffedog* — gwae fi'n te! Ogleddwyr, er mwyn osgoi y fath gywilydd cofiwch roi ffedog fach lân yn eich poced cyn mynd allan i'r perfformiad, — a het am eich pen. A mwynhewch!

Yn obeithiol iawn,

NAOMI JÂMS.

TUDALEN Y DYSGWYR

Cynhaliwyd Noson Goffi i ddysgwyr yn nhŷ Mr. a Mrs. Owen Edwards, Lady Mary Road, ar nos Fawrth yr 20fed o Fedi a daeth tyrfa dda ynghŷd i ymarfer siarad a chwmnia.

* * * *

Mae WLPAN y Ganolfan wedi dechrau ers nos Lun y 12fed o Fedi ac mae 16 o fyfyrwyr ar y cwrs ac wyth athro yn eu dysgu. Yr athrawon ydy — Linda Davies, Alun Treharne, Iolo Walters, Sian Piper, Elin Tudur, Heulwen Jones, Carol Williams a Gwilym Roberts.

* * * *

Ail-ddechreuodd Cyrsiau dysgu Cymraeg y Ganolfan ar nos Fercher y 14eg o Fedi. Daeth tyrfa fawr ynghŷd ac mae mynd ar y gwaith. Mae tri dosbarth y flwyddyn gynta yn cyfarfod ddwy waith yr wythnos dan arweiniad Dafydd Preece, Marilyn Kane, Ken Kane, Linda Moran a Greg Taylor, tra mae Tudur Williams a Bernard Evans yn dysgu nifer i sefyll arholiadau 02 a safon A yn Gymraeg ar nos Fercher ac Alan Wayne Jones a Gwilym Roberts yn dysgu'r ail a'r drydedd flwyddyn. Mae athrawon y Ganolfan i gyd yn gweithio'n wirfoddol ac mae'r tal a godir ar y myfyrwyr yn mynd tuag at gynnal y Ganolfan a chefnogi Mudiadau ac achosion Cymraeg fel yr Ysgolion Meithrin, Yr Urdd, Yr Eisteddfodau, Y Dinesydd ac ati. Y llynedd rhannwyd dros £1,000 rhwng y gwahanol achosion, felly rhaid diolch i'r holl athrawon am eu gwaith da.

* * * *

Ail-ddechreuwyd trefnu gweithgareddau ar gyfer y Dysgwyr yn y ddinas ac eisoes cynhaliwyd noson goffi iddynt. Aeth nifer o ddysgwyr i'r gwasanaeth hwyrol yng Nghapel Heol y Crwys ar nos Sul, y 25ain o Fedi a chael paned a sgwrs yn y festri ar ôl y gwasanaeth. Bwriedir ail-gyhoeddi "YR AGORIAD", sef papur Cymraeg i ddysgwyr Caerdydd, cyn bo hir... felly cadwch eich llygaid ar agor amdano!

Cynhelir Ffair Hydref at gylch Meithrin Ffynnon Dâf ar bnawn Sadwrn, yr 22ain o Hydref, yn Neuadd y Pentre am 2.30. CROESO cynnes i bawb.... Mae angen cefnogaeth.

* * * *

Hefyd ar ddydd Sadwrn yr 22ain o Hydref bydd *Sadwrn y Dysgwyr* yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, fel paratoad ar gyfer yr Eisteddfod yng Nghaerdydd mis Awst nesa. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 1.45 ac yn gorffen am 6.00. Trefn y Rhaglen, yn frâs, fydd:-

1) Croeso gan Gadeirydd Pwyllgor y Dysgwyr
2) Grwpiau i siarad am yr Eisteddfod
3) TE a sgwrsio rhydd
4) Anerchiadau gan — Mr. Emyr Currie-Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith) Mr. W. J. Jones (Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith)
5) GORFFEN gyda sesiwn o 'GODI'R TO'

Bydd croeso cynnes i Gymry Cymraeg, yn arbennig aelodau o bwyllgorau'r Eisteddfod, i ddod erbyn tri i ymuno a'r dysgwyr ac i sgwrsio â nhw.

* * * *

DAU GWRS PENWYTHNOS I DDYSGWYR.

TACHWEDD 11 - 13. Llangrannog. Y gost — £10.50 os ydych yn teithio ar y bws arbennig, neu £8.50 os nad ydych. Am fanylion pellach ffoniwch John Albert — Caerdydd 754559.

RHAGFYR 2 - 4. Llangrannog. Cwrs Cymdeithas yr Iaith. Manylion gan Sylvia Morgan — 47, Windsor Place, Radyr (Caerdydd 842534) neu Gwilym Roberts — 6, Heol Wen, Rhiwbina (Caerdydd 62254).

* * * *

DYSGWYR

Bydd croeso i Ddysgwyr Cymraeg y ddinas yng Ngwasanaeth Diolchgarwch Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth ar nos Sul, yr 16eg o Hydrefn am 6 o'r gloch.

Cynhelir noson "CÂN A PHEINT" yng Nghlwb Rygbi Llandâf (Western Avenue) ar nos Iau, y 13eg o Hydref, am 8 o'r gloch. Croeso i Ddysgwyr a Chymry Cymraeg.

MEITHRIN

Beth ddigwyddodd i golofn y Mudiad fis Medi? Fe aeth y llith arferol i'r Golygydd yn Ffynnon Daf yn ddiogel ond methodd yr argraffwyr â deall f'ysgrifen flêr a bydd raid i mi ofalu cael teipio'r llith mewn pryd o hyn ymlaen. Maddeued y darllenydd fy ngham gwag. O ran hynny, efallai na welodd neb golli'r pwt!!

Trên Llawn

Parhau i weithio'n frwd iawn y mae gwirfoddolwyr y Mudiad ac eisoes mae prysurdeb y Gaeaf yn codi stêm. Bydd trên y Mudiad yn pwffian am Lundain ar Sadwrn y 15fed o Hydref ac mae'r tocynnau i gyd wedi'u gwerthu, a hynny efo llawer llai o drafferth na'r llynedd na'r flwyddyn cynt. Mae'n amlwg bod y daith i Lundain wedi'i sefydlu 'i hun yng nghalendr Cymry Caerdydd. Mae'r fenter hon o fudd mawr i'r Pwyllgor Sir — a diolch i'r criw bach brwd am drefnu'r fath fenter. Rhennir yr elw rhwng pob Cylch Meithrin yn y Sir — a mawr yw eu hangen am gymorth ariannol.

Athrawes Newydd

Prinder athrawon yw cri'r golofn hon o fis i fis - ond fe ddaeth llygedyn o obaith ddechrau'r tymor yma — llygedyn dros dro, mae'n wir, ond diolch amdano. Apwyntiwyd Miss Ann Hughes o dan y Cynllun Creu Swyddi yn athrawes ar Gylch Llanfihangel ar Elái bob bore, a chylch y Wenfo yn y pnawn. Eisoes gwelir ei hôl yn y cylchoedd hyn ac y mae Neuadd Bentre Llanfihangel ar Elai yn werth 'i gweld gyda gwaith llaw deniadol Ann a'r plant yn addurno'i waliau.

Faint o ddarllenwyr y *Dinesydd* ŵyr ble mae Cylch Llanfihangel ar Elái tybed? Mae o ochor draw i Culverhouse Cross i gyfeiriad Drope, mewn neuadd fechan ar fin y ffordd droellog — yng nghanol y wlad. Mae'r cylch mewn llecyn delfrydol a phrin y coeliech chi eich bod mor agos i sŵn a dwndwr dinas Caerdydd.

Cymorth i'r Tyllgoed

Bûm yn gofidio o'r diwrnod cynta yr agorodd Cylch y Tyllgoed bod y rhieni brwd yn ceisio rhedeg y cylch a finna wedi methu dod o hyd i athrawes iddynt. Bu'r mamau wrthi'n ddyfal yn gofalu am y cylch yn eu tro. Yna, un diwrnod, cerddodd merch ifanc i mewn i Swyddfa'r Mudiad gan esbonio ei bod yn ddiwaith ac yn segur ac yr hoffai helpu mewn rhyw ffordd. Diolch yn fawr iawn i Anwen Williams am ei chymwynas â ni — hi sydd yn gofalu am Gylch y Tyllgoed ar hyn o bryd. Er na ddymunwn i Anwen fod yn ddiwaith yn hir, rwy'n siwr y bydd Cylch y Tyllgoed yn gyndyn iawn o'i cholli.

Y Cyfarfod Blynyddol

Yn ystod mis Medi cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yng Ngholeg Politechnig Trefforest. Cafwyd diwrnod buddiol o drafod a dadlau a gwrando ar adroddiadau o'r siroedd. Mae'n sobri rhywun i sylweddoli y cyfrifoldeb sydd gan y Mudiad wrth geisio cyflawni ei nod. Ond torcalonus oedd yr adroddiadau o rai siroedd lle nad oes unrhyw barhad i addysg Gymraeg i blant sy'n gadael ein cylchoedd. Er ein holl anhawsterau ni yn Ne Morgannwg, rydym yn ffodus iawn bod modd inni sicrhau rhieni plant Cylchoedd Meithrin y Sir bod parhad mewn addysg Gymraeg o'r bon i'r brig o fewn y Sir.

SHÂN EMLYN

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

CWRS PENWYTHNOS I DDYSGWYR

WEEKEND COURSE FOR WELSH LEARNERS

Llangrannog

Rhagfyr 2-4 December

Manylion — S.J. MORGAN — Details
5 Maes Albert
Aberystwyth

Cymrodorion

Mae'r Cymrodorion yn dal mewn grym. Rhag ofn i chwi feddwl mai dim ond gwrando ar ddarlith yw ein pwrpas, gallaf eich sicrhau bod ein gorwelion yn lletach na hynny.

Ar ôl gorffen gwaith y Gaeaf eleni buom ar daith i Wlad yr Haf, ac o dan arweiniad doeth Mr. Ifor Rees, yn ymweld ag Abaty Glastonbury a'r eglwys Gadeiriol yn Wells. Fel arfer, ar ein teithiau cawsom ddiwrnod wrth ein bodd a'r haul yn gwenu'n garedig arnom.

Ar waethaf y "Chwyddiant" llwyddasom, am y bumed tro, i ddanfon dau o fechgyn ysgol i'r Eisteddfod yn Wrecsam. Cawsom ein sicrhau eu bod wedi cael amser gwych yn elwa ar y profiad o fyw mewn awyrgylch Gymreig am wythnos gyfan.

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â Chymdeithasau Cymraeg tryw'r byd i gyd, a diddorol yw derbyn eu cyfarchion tuag adeg Gŵyl Ddewi, o Ganada, ac Awstralia, De Affric, a'r America, a llawer cymdeithas o'r ochr arall i Glawdd Offa.

Mae'r tymor newydd wedi cychwyn ar Fedi 30, a dyma ein rhaglen i'r dyfodol.

TACHWEDD 4
Yn festri Minny Street. Mr. T. W. Thomas yn "Steddfota".

RHAGFYR 2
Yn festri Tabernacl
Dr. Doublas Bassett yn son am Hanner Can mlynedd yr Amgueddfa Genedlaethol.

IONAWR 6
Yn festri Eglwys Dewi Sant
Mr. Alun Davies yn taflu goleuni ar "Emynyddiaeth" y Cymry.

CHWEFROR 3
Yn festri Heol y Crwys
Mrs. Shan Edwards yn mynd â ni i Batagonia.

MAWRTH 4
Cinio i ddathlu Gŵyl Ddewi yng ngwesty'r "Centre"
Prif westai — Y Bardd Dic Jones.

EBRILL 7
Yn festri Minny Street.
Hywel Teifi Edwards yn siarad ar "Geni'r Eisteddfod Genedlaethol".

MAI
Y Cwrdd Blynyddol.
Croeso cynnes i bawb. Dewch i fwynhau noson gartrefol wir Gymreig ymhlith eich cyd-Gymry.

WENALLT —
Y CWMNI AROBRYN

Ymlaciwch yn un o'n cerbydau moethus 20-51 sedd

CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

(Gwasanaeth 24 awr)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

cOlOfn sbectol SIÂN

MÔRDAITH

Bobol bach dwi'n mynd yn hen — cofio trigolion Radio Caroline yn ffarwelio am y tro olaf cyn diflannu dros y gorwel pell fel petai hi'n ddoe. Wyddoch chi fod deng mlynedd wedi hedfan ers y diwrnod dagreuol hwnnw, a Redio Wan bellach yn gymaint rhan o'r bywyd Seisnig ag y mae bowler hat a jodhpurs. Yn ddiau dyfodiad y morladron cerddorol hyn a ysgydwodd yr hen fodryb i sefydlu y Redio boblogaidd.

Erbyn meddwl, hen ast styfnig ydy modryb o hyd. Mae'n debyg mai "addewid am ragor o friwsion" (Jennie Eirian, Y Cymro, Medi 20) fydd canlyniad cyfarfod pwysig rhwng cymdeithasau Cymreig a'r dewin Merlin Rees. Ychwanega Jennie Eirian:

"Mae'r Gymraeg ar ein setiau teledu yn cael ei diffodd — yn raddol ond yn dyngedfennol o bendant. Y mae ffordd dawel o ladd."

Gweithredoedd cerddorol Caroline a siglodd y gyfundrefn ddegawd yn ôl. Oes raid i ni heddiw, yng ngwlad y gân, adael tynged ein hiaith yn nwylo Vaughan, Sion Aled, Eryl, Teresa neu rhyw Garoline arall?

MÔR FAWR WYT TI

Er fod BBC Wales (a major producer of television programmes) yn ei dogfen i'r wasg yn datgan:

"We may justly claim to be entering 'the big league' of suppliers of programmes to the United Kingdom networks," disgynniad eitha diseremomi o'r 'big league' oedd hanes rhai o'n cyfeillion hoff yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ffarweliodd Dai Davies a Neverton, a phledwyd Terleski gyda rholiau papur tŷ bach o'i orsedd ar deyrnas Parc Ninian. Trueni fod Shân Emlyn wedi canu'n iach a'i swydd gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Buasai'r holl bapur wedi bod yn handi i sychu trwynau'r plantos. Mae'n debyg fod y saib o'r gwaith yn ollyngdod mawr iddi!

MÔRALS MORWYNION

Ond peidiwch a phoeni, gyfeillion, fe gewch gyfle i chwarae eto yn ôl yr hysbyseb isod.

MÔR MYNI

Wrth son am "alwad cyhoeddus" roeddwn wedi bwriadu adrodd hanes rhyw ŵr cyfoethog a gyfrannodd ffeifar i gronfa'r Steddfod, er mwyn cael ei enw yn y llyfr mawr (Yn ôl y Pwyllgor Apel cyhoeddir enw pob cyfrannwr a fforchia ffeifar neu fwy) a'r wraig drws nesa a gyfrannodd hatling. Ond mae'n debyg eich bod wedi clywed yr hanes o'r blaen yn rhywle, fel dywed yr hysbyseb "it's not what we do, it's the way we do it."

FOURTH GREAT WEEK BY PUBLIC DEMAND!
DRWY ALWAD CYHOEDDUS AM Y BEDWERYDD WYTHNOS!

ENTERTAININGLY FUNNY AND BLUSHINGLY SAUCY
It's not what we do — It's the way we do it

Y CASINO — BOB NOS IAU, DISGO CYMRAEG!

CYN DYFOD Y PERIWIG!

Fy atgof cyntaf am ysgol ddyddiol o unrhyw fath yw mynd am wythnos gyda'm cyfnither i ysgol y babanod, Parc y Lan, Pontypridd. Yr oedd yr ysgol yn enfawr a gorymdeithiem i'n dosbarthiadau yn sŵn "Gwŷr Harlech" fel rhes o filwyr bach ufudd a distaw, dwy rinwedd y bu'n galed i mi eu meithrin ar hyd fy oes: ac ar ben y cyfan daeth deintydd y sir heibio — y mae ysgol Parc y Lan hyd y dydd heddiw yn drewi o ether i mi!

Roeddem fel teulu yn byw yn Llundain ar y pryd a chysgodion addysg heb ddisgyn arnaf. Rhyw flwyddyn yn ddiweddarach, a minnau'n bump a hanner, y dechreuais i yn yr ysgol yn swyddogol a hynny, nid ym Mhontypridd, ond yn yr ysgol Gyngor yn Radyr, ble y daethom i fyw ym mis Tachwedd 1925.

Ysgol gymharol fach oedd un Radyr y pryd hynny, rhyw gant a hanner o ddisgyblion; meibion a merched i weithwyr y lein, glöwyr, gweithwyr alcam (Melin Gruffydd, y clywai'r holl blwyf ei gorn yn canu ar draws y cwm deirgwaith y dydd). Criw gwerinol a digon dedwydd-ar y cyfan ond pan ddeuem wyneb yn wyneb â phlant Ysgol y Santes Wenffrewi, ysgol breifat y pentre. Yr oedd yno gyni, yn enwedig ar adeg streic fawr 1926, a'r diweithdra a'i dilynodd ac, o edrych yn ôl, yr oedd amryw o'r plant a golwg digon llwm arnynt. Ond nid effeithiwyd o gwbl ar eu hunan hyder: eiddigeddwn wrth y bechgyn a wisgai esgidiau hoelion seis neu ddwy yn rhy fawr iddynt ac a ddeuent i'r ysgol â chlytiau wedi eu gwnïo ar eu cotiau a'u trowsusau.

Fi oedd yr unig blentyn yn y plwyf, heb sôn am y pentre, a allai siarad Cymraeg ac yn ystod y chwe blynedd y bûm i yno, ni ddaeth neb i "gystadlu" â mi. Dywedaf hyn oblegid pan ddeuai un o urddasolion byd addysg heibio, megis arolygwyr ac yn y blaen, arferai'r prifathro fy ngalw allan i'm cyflwyno fel ei ddisgybl dwy-ieithog. Rhyfedd meddwl am hyn fel ffenomenon ond mae'n debyg ei fod yn beth hynod yn y cyfnod hwnnw: doedd dim mwy na phump-ar-hugain i ddeg ar hugain o blant dan bedair ar ddeg a siaradai Gymraeg yn holl eglwysi Cymraeg Caerdydd ar y pryd. Am fy mod i'n cael sgwrsio â'r mawrion hyn ar uchelwyliau'r ysgol mae'n debyg fy mod yn meddwl fy hun yn dipyn o foi. Bid a fo am bechod balchder, fe ennynodd hyn falchder ynof fy mod yn medru Cymraeg. Yn rhyfedd iawn ni fûm i erioed yn ymwybodol o unrhyw eiddigedd atof oherwydd hyn — na dicter at yr iaith chwaith. Derbynient fod medru'r Gymraeg yn rhyw fath o orchest — yr oedd yn yr un dosbarth â'r gallu i fwrw pêl neu fowlio neu bencampwriaeth goncers yr ysgol: ac i bawb ei ragoriaeth. Roedd hyn i gyd yn bwysicach nag y tybiwn ar y pryd oherwydd, fel y darganfum ymhen blynyddoedd, gwrthrych gwawd gan ei gyd-ddisgyblion oedd plentyn a siaradai Gymraeg gartref yng Nghaerdydd. Nid rhyfedd bod Cymry Cymraeg ifanc Caerdydd yn siarad Saesneg ymysg ei gilydd bron yn ddieithriad. Methwn eu deall ar y pryd: ond fy lwc i oedd cael fy magu ar aelwyd hollol Gymraeg a chael fy addysg mewn ysgol Gynradd ble roedd yr awyrgylch ymysg athrawon a phlant yn ffafriol i'r Gymraeg. I'r ysgol y mae diolch fy mod wedi cario ymlaen gyda'r Gymraeg, a dal i fod yn Gymro Cymraeg. Erbyn hyn y mae nifer helaeth o aelwydydd Cymraeg yn y pentref: mae yno Ysgol Feithrin lewyrchus ac ymhell dros ddeg ar hugain o blant dan 16eg sy'n siarad Cymraeg.

Ond i ddod yn ôl at hen ysgol Gynradd Radyr! Saesneg oedd cyfrwng yr addysg — yn Saesneg y chwareuem, gwerslyfrau Saesneg oedd gennym a phan gaem fynd i "Standard Ffeif" roeddem yn "chaps". Nofelau Saesneg oedd ein llyfrau darllen ac yno y megais flas at Dickens a Sirth (o bawb) a Charles Read. Ni chofiaf imi erioed ddarllen gair o Gymraeg yn yr ysgol ac ni chefais un wers ysgrifennu Cymraeg. Bu bron i'r anfantais diwethaf achosi cyflafan i mi yn arholiad y "sgolarship" i Ysgol Sir Penarth.

Cewch wybod sut yn y 'Dinesydd' nesa.

DEWI WATKIN POWELL

Ar HYDREF 18, 1977 bydd 'Y Dinesydd' yn 5 oed. Cewch wybod yn y rhifyn nesa sut y gallwch sicrhau dyfodol y papur.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth wrywod neu fenywod am y swyddi isod yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.

a) Teipydd i weithio yn yr Adran Ddogfennaeth. Cyflog oed 16: £27.42 hyd at gyfanswm o £48.04 yr wythnos.
b) Garddwr profiadol i weithio yn y gerddi a'r tiriogaeth. Cyflog: £48.07 hyd at gyfanswm o £50.08 yr wythnos.
c) Gyrrwr Tractor gyda phrofiad o waith amaethyddol a/neu diwydiant adeiladu. Cyflog: £2,693 hyd at gyfanswm o £2,882 y flwyddyn.

Gwyliau blynyddol hael. Cynllun pensiwn cyfrannol. Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth: Y Swyddog Sefydliad, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB.

Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau: Dydd Sadwrn, 22 Hydref 1977.

Oriel

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

POSTER NEWYDD

Y FANTELL FRAITH —
I.D. HOOSON. £1.00 yr un.

DYDD SUL, 23 HYDREF
8.00p.m.
(mynediad 50c i'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r Academi.) Digwyddiad yr Academi Gymraeg.

GEIRIAU NEWYDD —
Darlleniadau o farddoniaeth gan Philip Owens, Peter Thakit Jones a John Freeman gyda chaneuon gan Geoffrey Cripps.

Gwarth Ein Tai

Rhoddwyd cryn dipyn o sylw yn y newyddion yn ddiweddar i'r haeriad fod awdurdodau lleol Cymru wedi gwario £28 miliwn yn llai ar dai y llynedd nag y dylent fod wedi gwneud. Y mae'r ddadl hon yn parhau gyda'r cynghorau lleol yn ymateb yn ddig i gyhuddiadau'r Swyddfa Gymreig gan ddweud mai ymgais yw hon gan y corff sydd wedi llyffetheirio gymaint ar eu cynlluniau yn y gorffennol i daflu peth o'r bai am y cwtogi llym mewn gwario cyhoeddus arnynt hwy, y cynghorau, am resymau gwleidyddol. Ond waeth pwy sydd ar fai, y mae'r mater yn un difrifol. Byddai wedi bod yn ddifrifol mewn amgylchiadau normal; mewn cyfnod o ddirwasgiad economaidd lle mae'r cwtogi ar wario cyhoeddus wedi gwaethygu sefyllfa a oedd eisoes yn argyfyngus mewn ardal mor gyson ddirwasgedig â De Cymru, y mae'r peth yn syfrdanol.

Y mae bron hanner y tai yng Nghymru yn fwy na 60 mlwydd oed (i'w gymharu â dim ond traean y tai yng ngwledydd Prydain i gyd) a llawer o'r rheini mewn cyflwr gwarthus. Amcangyfrifwyd ym 1975 nad oedd 1 allan o bob 7 o dai Cymru yn ffit i bobl fyw ynddynt. Yr hyn sydd ei angen ar Gymru felly yw rhaglen eang o fuddsoddi mewn atgyweirio a gwella hen dai ac adeiladu tai newydd — yr hyn sy'n amlwg nad yw'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

I symud i lefel fwy lleol, y mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu buddsoddi mewn rhaglen uchelgeisiol o ddatblygu ac adeiladu dros y blynyddoedd nesaf. Tai, meddech chi, yn wyneb y mawr angen am gartrefi yn y Brifddinas? Wel nage — yn hytrach, rhywbeth yn debyg i barc pleser aruchel, fel y dangosodd Menna Richards yn ei herthygl yn y *Dinesydd* diwethaf.

Mae'n siwr y bydd yr arcediau llydain newydd, y neuadd gyngerdd fawreddog (a gyst ryw £5 miliwn i'w hadeiladu), y trigain a chwech o siopau newydd dianghenraid, heb son am y swyddfeydd newydd i'w hychwanegu at y 400,000 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa gwag y gall Caerdydd ymffrostio ynddo eisoes, o'r cysur mwyaf i'r 3,500 o deuluoedd sydd ar restr aros y brifddinas am dai, a'r hanner cant a mwy o deuluoedd sy'n gwbl ddigartref.

Wele rai ffeithiau i gwblhau'r darlun hwn o gyngor dinesig wedi meddwi ar statws a phwysigrwydd ymddangosiad ar draul pobl a'u gwir anghenion:

*Y mae 750 o dai yn sefyll yn wag yng Nghaerdydd, a'r Cyngor ei hun sy'n berchen ar 80% o'r rhain. Mae'r mwyafrif o'r tai sydd ym meddiant y Cyngor wedi eu bricio i fyny a'u gadael i bydru. Fe gymerodd fisoedd o ymgyrchu caled gan y grŵp *Action Riverside and Canton* i gael y Cyngor i adnewyddu tŷ gwag yn Heol Parc Ninian (gweler y darlun tud 1) a gosod teulu i fyw ynddo — a dim ond un tŷ yw hynny.

*Adeiladodd Caerdydd 490 o dai cyngor newydd ym 1976/77. Eleni, cychwynwyd 459 o dai newydd (dechreuodd Cyngor Cwm Rhymni, gyda dim ond traean poblogaeth Caerdydd, waith ar 594 o dai newydd). At hynny, torrwyd gwariant ar dai o 50% eleni; yr amcangyfrif tebycaf felly yw na chwblheir mwy na 200 o dai y flwyddyn o nawr hyd 1980.

*Y mae Caerdydd wedi dymchwel bron 2,000 o dai yn yr wyth mlynedd diwethaf. Er 1973/74, dymchwelwyd mwy o dai nag a adeiladwyd.

*Er gwaethaf pwyslais y Llywodraeth ar adfer hen dai yn wyneb y prinder tai newydd, araf iawn a fu Caerdydd i roi grantiau gwella i berchenogion preifat i wella eu tai eu hun — dim ond 215 grant o'r fath a roddwyd gan y ddinas llynedd (yr un faint ag a roddwyd gan gynghorau llai megis Ogwr a Dyffryn Lliw, a dim ond rhyw draean o'r nifer a ddarparwyd gan ddinas Abertawe).

Wrth gwrs, gallwn ddisgwyl clywed gan y Cyngor, yr esgus oesol sydd i fod i gyfiawnhau hyn oll sef diffyg arian. Ond yn wyneb y miliynau sydd yn cael eu hafradu ar weddnewid canol y ddinas er budd i neb ond y datblygwyr a'r hapfasnachwyr (fe ddychwelwn at hyn eto), prin fod hon yn ddadl y gellir ei chymryd o ddifrif. Cyn belled ag y mae teuluoedd digartref yn y cwestiwn, gwastraffu arian a wna'r Cyngor mewn ffordd sy'n dangos diffyg gweledigaeth a diffyg ystyriaeth o ffactorau dynol a chymdeithasol.

**Y mae'r Cyngor yn y broses o wario £200,000 ar brynu ac adnewyddu hen Ysbytu Caerau a'i droi'n hostel a all letya 22 o deuluoedd digartref ar y tro. Does bosib na ellid fod wedi adfer 22 o dai gwag y Cyngor am y swm hwnnw, gan ddarparu cartrefi iawn i'r teuluoedd anghenus hyn, yn lle hostel sefydliadol, ddigroeso ar batrwm hostel arall y Cyngor. Green Farm, lle mor anghynnes a chaeth ei reolau nes y gellir ei ddefnyddio fel bygythiad i gadw pobl rhag datgan wrth y Cyngor eu bod yn ddigartref.*

Un o effeithiau trist hosteli fel hyn yw eu heffaith ar fywyd teuluol ac ar briodasau (ni chaiff y gŵr aros ynddynt gyda'i gwragedd, ac ni chaniateir i fechgyn dros wyth oed aros yno chwaith!). Dim rhyfedd fod cyfnod o rai misoedd mewn amgylchiadau fel hyn wedi arwain at sawl ymwahaniad ac ysgariad y gellid o bosib fod wedi eu hosgoi fel arall. Ymateb cynghorwyr i'r cyhuddiadau hyn fod polisiau'r Cyngor yn arwain at hollti teuluoedd yw ceisio cyfiawnhau eu hunain drwy roi'r bai ar y digartref eu hunain. Honnir nad yw'r gŵr yn ymdrechu'n ddigon caled i sicrhau gwaith a rhywle i fyw iddynt hwy a'u teuluoedd; yng ngeiriau anfarwol y Cynghorydd Stan James (Is-Gadeirydd y Pwyllgor Tai!), "they should be kicked up the backside and sent out to work". Dim son am y ffaith ein bod mewn cyfnod o ddiweithdra uchel a phrinder tai affwysol, ac mae'r rheini sydd allan ar y stryd, heb gyfeiriad parhaol yw'r olaf bob amser i'w hystyried am swydd neu lety preifat.

Er gwaethaf Cylchlythyr Adran yr Amgylchedd 18/74 (Chwefror 1974) yn argymell y dylai'r Awdurdodau Tai dderbyn y cyfrifoldeb o ddarparu ar gyfer y digartref (yn hytrach na'r Gwasanaethau Cymdeithasol) y mae Caerdydd

wedi gwrthod derbyn y cyfrifoldeb hwn yn llawn hyd yn hyn. O ganlyniad y mae'r baich wedi ei rannu rhwng Cyngor Caerdydd a Chyngor Sir De Morgannwg, cymhlethdod ychwanegol mewn sefyllfa sydd eisoes yn ddigon dyrys. Felly er mai Cyngor Caerdydd sy'n gweinyddu hostel Green Farm, dim ond cyfran fechan o deuluoedd digartref Caerdydd y gellir eu lletya yno; y mae'r mwyafrif helaeth o deuluoedd digartref mewn llety Gwely a Brecwast a ddarperir ar eu cyfer gan Wasanaethau Cymdeithasol De Morgannwg.

Pan ddaeth Llafur i rym yn Ne Morgannwg ym 1974, datganwyd yn eofn yn eu maniffesto etholiadol, "The disgusting policy of splitting families who are homeless, especially the separation of parents and children, must end". Ond erbyn mis Chwefror 1977, yr oedd y Cyngor Llafur hwythau wedi anghofio am eu geiriau glew: symudwyd pobl o letyau gwely a brecwast i hostel Green Farm gan rannu'r teuluoedd yn ôl y rheolau; rhoddwyd dau deulu allan ar y stryd heb unrhyw awgrym am eu dyfodol beblaw am gynnig y dylent roi eu plant yn wirfoddol yng ngofal y Cyngor. Gwrthododdd y rhieni hynny.

Y mae'n eironig mai'r ddarpariaeth Gwely a Brecwast gorau i deuluoedd digartref yng Nghaerdydd yw 162 Newport Road, lle addaswyd dau dŷ i'r pwrpas penodol o letya teuluoedd a ddanfonwyd yno gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel busnes masnachol a fyddai'n gwneud elw i'r perchenogion. Mae lle yno i deuluoedd cyfain; gallant aros yno yn ystod y dydd (yn hytrach na gorfod mynd i grwydro'r strydoedd am fod rheolau gwesty yn gwahardd iddynt fod yno yn ystod y dydd); mae yno gyfleusterau coginio a golchi. Ond pam yn y byd felly na allai'r Cyngor ddilyn yr esiampl hon a gwneud yr un fath gyda pheth o'r eiddo gwag sydd yn ei feddiant?

Dim ond un cwestiwn yw hwn wrth gwrs o blith nifer o gwestiynau yn y maes cymhleth a thorcalonnus hwn. Fe ymdrinir â rhagor ohonynt yn y rhifyn nesaf pan fyddwn yn ymchwilio ymhellach i'r cefndir ac yn gofyn sut y bu i'r sefyllfa warthus hon ddatblygu yn y lle cyntaf.

PENNY PHILCOX & SIÂN EDWARDS

DIARFOGI

Sefydlwyd yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear (CND) ym 1958, ac yn ystod y blynyddoedd wedyn, bu llawer o brotestio yn erbyn y bom niwclear, gan gynnwys gorymdeithio bob blwyddyn i Aldermaston.

Ond o ddiwedd y chwedegau ymlaen, ni chafwyd cymaint o sôn am CND, nes i bobl feddwl bod y mudiad wedi mynd i'r gwynt. Ond dal i fodoli y mae CND, gan wneud ei orau i dynnu sylw at y bygythiad mwyaf erchyll sydd erioed wedi ein hwynebu. Erbyn hyn, y mae pethau wedi tawelu gymaint fel bod y lliaws o bobl wedi'u twyllo eu hunain fod y perygl wedi mynd a'n bod ni i gyd yn ddiogel. Ond y mae'r râs arfau'n dal i gynyddu, a chan fod pob râs arfau yn y gorffennol wedi diweddu mewn rhyfel, nid oes reswm i gredu mai gwahanol fydd diwedd y râs hon. Erbyn hyn, amcangyfrifir bod digon o arfau niwclear yn y byd i'w ddinistrio ganwaith drosodd. Eto i gyd, y mae gwledydd yn dal i gynhyrchu arfau newydd, a'r perygl yn cynyddu o ddydd i ddydd.

Yn anffodus, y mae pobl yn dal i feddwl y gallai arfau niwclear roi terfyn ar ryfel am byth. Dyna a ddywedodd Nobel wrth ddyfeisio deinameit, ond y mae rhyfel gyda ni o hyd! Bu sawl argyfwng yn y gorffennol yn dangos y gellir bod yn agos iawn at dynnu'r triger niwclear. Credai sawl un y byddai argyfwng Ciwba yn achosi rhyfel niwclear bydeang. Yn ddiweddarach, rhoddodd yr Arlywydd Nixon ei fyddinoedd ar wyliadwriaeth, a bu'n agos i ryfel ddechrau y pryd hynny. Gwyddys erbyn hyn fod Nixon yn berson ansefydlog iawn ac na fuasai cychwyn rhyfel y tu hwnt iddo.

Dywedir na ddefnyddiwyd arfau niwclear erioed. Y mae hyn yn gelwydd! Maent eisoes wedi eu defnyddio ddwywaith, sef yn Hiroshima a Nagasaki ym 1945. Efallai bod 1945 yn ymddangos yn ddigon pell yn ôl erbyn hyn, ond ceir pobl yno sydd o hyd yn dioddef gan effeithiau'r bom, a rhai ohonynt heb eu geni ar y pryd. Y mae llawer o famau yno'n esgor ar blant marw neu rai sydd wedi'u hanffurfio'n ddychrynllyd, a'r cyfan o ganlyniad i'r bomiau hynny, bomiau a laddodd gannoedd o filoedd ar unwaith, a miloedd wedyn yn trengi'n araf.

Cyn belled ac y mae Prydain yn y cwestiwn, y mae'r bomiau a'r canolfannau Americannaidd yn gwahodd ymosodiad. Pe bai Prydain yn defnyddio'r bomiau i ymosod, câi ei dileu'n llwyr mewn ail-ymosodiad. Felly y mae unrhyw fygythiad ar ran Prydain i ddefnyddio bomiau niwclear yn fygythiad i gyflawni hunanladdiad. Y mae Prydain yn aelod o NATO, cynghrair sydd wedi datgan yn swyddogol ei bod yn barod i wneud defnydd cyntaf o arfau niwclear. Nid yw pob gwlad NATO yn meddu ar arfau niwclear — y mae Prydain yn y lleiafrif yn hynny o beth. Pe bai NATO yn defnyddio arfau niwclear, y mae'n sicr y câi Prydain ei difodi'n llwyr, am yr unig reswm ei bod yn berchen ar arfau niwclear. Felly, er mwyn inni fyw yn ddiogel, y mae'n hanfodol bwysig fod Prydain yn diarfogi. Fel arall, y mae pob copa ohonom mewn perygl nid yn unig y Saeson, ond yr Albanwyr a ninnau yng Nghymru hefyd. Ceir canolfannau niwclear ar wasgar dros Brydain i gyd, yn enwedig yn yr Alban. Ond y mae digon mewn mannau eraill i wahodd ymosodiad a ddinistriai lawer iawn o filltiroedd sgwâr o'u cwmpas. Nid yw arfau niwclear yn gwahaniaethu — yr ydym ni i gyd yn darged.

Bellach, y mae'r *bom niwtron* wedi gwneud y ffin rhwng arfau confensiynol ac arfau niwclear yn niwlog iawn. Y mae'r bom niwtron yn arbennig am ei fod yn dinistrio pethau byw yn unig, gan adael adeiladau'n sefyll. Gwnai hynny'n bosib i'r gelyn potensial oresgyn y lle ar ôl i'r bom ladd pawb. Y mae'r bom yn arbennig hefyd am fod yr ymbeldredd yn dianc lawer yn ghynt na mewn bomiau niwclear eraill, fel bod pobl yn gallu troedio lle ffrwydrodd bom niwtron ymhen amser byr iawn. Felly, gallai rhyfel ddechrau gydag arfau confensiynol a diweddu'n lladdfa niwclear fydeang.

Heb sôn am gychwyn rhyfel yn fwriadol, gellid yn hawdd gychwyn un ar ddamwain. Dadlennwyd beth amser yn ôl fod miseil niwclear wedi ei danio ar gam ac wedi ei alw yn ôl, ar ôl sylweddoli nad oedd unrhyw elyn wedi ymosod wedi'r cwbl. Erbyn hyn, y mae miseiliau'n teithio gymaint yn gynt fel na eilir eu galw yn ôl ar ôl eu tanio. Felly pe camgymerid rhywbeth hollol ddiniwed am arwydd o ryfel, a thanio miseil yno, buasai'r weithred yn ddidroi'nôl, ac yn debyg o achosi rhyfel niwclear a diweddai mewn difodiant i bawb ym mhob man.

Y mae'n hysbys erbyn hyn fod y *gwasanaeth iechyd* wedi paratoi ar gyfer rhyfel niwclear, ac wedi cyhoeddi llyfryn sy'n argymell peidio a thrin ond ychydig dethol o gleifion, gan adael i'r gweddill drengi'n araf ac yn boenus. Ceir twneli dan ddaear i ychydig gysgodi ynddynt. Y mae'n amlwg felly nad yw'r wladwriaeth yn credu bod rhyfel niwclear yn amhosib, ond i'r gwrthwyneb, fod rhyfel niwclear yn debyg o ddigwydd rywbryd.

Gan fod y bygythiad erbyn hyn yn fwy nag erioed, credaf ei bod yn hen bryd inni sefyll ar ein traed a dangos i'r llywodraeth nad ydym yn cyntuno â'i pholisi amddiffyn. Erbyn hyn, y mae Plaid Cymru, y Blaid Lafur a'r Blaid Gomiwnyddol ymysg mudiadau eraill, wedi eu cyd-gysylltu â CND, gan ddangos felly eu bod o blaid diarfogi niwclear. Rhaid inni geisio perswadio pobl ein bod mewn perygl, drwy siarad â nhw, drwy ddangos llenyddiaeth a ffilmiau iddynt a thrwy eu hargyhoeddi mai diarfogi yw'r unig ffordd i gael heddwch a bywyd-i ni, ein plant a'u plant hwythau. Ni ellir dianc rhag y ffaith fod y bomiau hyn wedi'u dyfeisio a'u hadeiladu i'r *unig* berwyl o ladd a dinistrio pobl a phethau wrth y miliynau, o wneud y ddaeaer yn ddiffrwyth ac yn amhosibl i neb fyw ynddi, ac o roi terfyn ar fywyd a gwareiddiad fel yr ydym yn eu hadnabod.

Rhaid inni wynebu croesffordd — efallai'r un bwysicaf yn ein hanes — sef dewis p'un ai'r bom neu ni sy'n mynd. Ac y mae'r dewis tyngedfennol hwnnw yn ein dwylo ni i gyd.

HELEN SMITH.

Cystadleuaeth

arbennig yn y Steddfod

A. Casgliad o storïau, dywediadau, llysenwau neu rigymau a adroddir am drigolion gwahanol ardaloedd a siroedd yng Nghymru.

Storïau (yn cynnwys hefyd hanesion a thraddodiadau). E.e.: i. Gwrthdaro rhwng trigolion ardaloedd/plwyfi/ffermydd. ii. Storïau sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng trigolion siroedd/ardaloedd a'i gilydd. iii. Storïau am y Cardi.

Dywediadau Gellir cynnwys dywediadau pur gyfarwydd, megis 'Rhwng gŵyr Pentyrch a'i gilydd', yn ogystal â dywediadau neu ddisgrifiadau llai cyfarwydd, megis y tri a ganlyn am drigolion Llangollen: disgrifiodd gŵr o ddyffryn arall hwy fel pobl sy'n 'dal llygoden a'i bwyta', yn 'byw gerfydd croen eu dannedd' ac yn 'bwyta mêl o gwch'.

Llysenwau E.e. y llysenwau am yr ardaloedd cyfagos a ganlyn yng Nghlwyd: Pobol y Rhos, Pethe Cefn (Cefn-mawr) Swancs Llangollen, Catel y Glyn (Llansanffraid Glyn-ceiriog) a Phi-wîds Nantyr.

Rhigymau E.e. y ddau rigwm a ganlyn o Ddyfed:

Cynwyl Elfed,
Lladron defed.
Mae Porth-y-rhyd yn borth o'r gorau
I erlid cleps a dweud celwyddau;
Deled dyn o ble y delo,
Ym Mhorth-y-rhyd bydd sôn amdano.

B. Casgliad o storïau, dywediadau, llysenwau neu rigymau am ymwelwyr â Chymru.

E.e.: i. Gwyddel, Sgotyn a Chymro wedi'u dedfrydu i'w crogi. Pob un yn cael dewis ei goeden. Y Gwyddel yn dewis coeden eirin mair/gwsberins. ii. Iddew yn anfon ei fab i Sir Aberteifi i gwplau ei addysg. iii. Cymro ac Americanwr. Popeth yn fawr yn America. Storïau celwydd golau. iv. Sais yn cymysgu wrth siarad Cymraeg.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
SWYDDOG DATBLYGU
Mae angen Swyddog Datblygu rhan-amser yn
NE MORGANNWG
i ddatblygu Cylchoedd Meithrin Cymraeg
Manylion a ffurflen gais oddi wrth:
Y Cyfarwyddwr, Mudiad Ysgolion Meithrin,
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,
Canton, Caerdydd.
(Ffôn: 36113)

O'r Ganolfan

Mae tymor y gaeaf wedi cyrraedd, ac mae'r ganolfan yn byrlymu gyda gwahanol weithgareddau. Eleni codir tâl aelodaeth, £1 i rai yn yr ysgol, a £2 i eraill. Am y pris rhesymol yma ceir dewis helaeth o bethau i gadw rhywun yn ddifyr trwy'r gaeaf. Dyma raglen yr wythnos:

Nos Lun.
6.30–8.30 Uwch-Adran. I blant sydd yn eu blwyddyn gyntaf neu'r ail yn yr ysgol Uwchradd. O dan ofal profiadol yr arweinydd, Cen Williams, cynigir amryw o weithgareddau, yn cynnwys gêmau, twmpathau, gymnasteg, nofio, merlota, crochenwaith, ac wrth gwrs y teithiau beiciau byd enwog o gwmpas y wlad.

Nos Fawrth.
7.30–9.30 Badminton. Mae clwb badminton y ganolfan yn croesawu unrhyw un sydd â diddordeb yn y gêm i ddod draw i gadw'n heini.

Nos Fercher.
Noson y dysgwyr.

Nos Iau.
7.30–9.00 Côr yr Aelwyd. Os ydych dan 30 oed, ac yn hoffi canu yn y bath (neu rhywle!) dewch draw am gân fach gyda ni.
8.00–9.30 Cwmni dawnsio gwerin Aelwyd Caerdydd. Mae croeso arbennig i rai dan 25 oed i ymuno ar gyfer cystadlu yn y dyfodol.

Nos Wener.
O 7.30 ymlaen, mae'r aelwyd yn cyfarfod i bobol ifanc o 14 i fyny. Mae'r cyfleusterau ar gael i chwarae dartiau, tenis bwrdd, snwcer, badminton, a pêl foli. Hefyd trefnir discos a dawnsfeydd yn achlysurol.

Ar ben hyn i gyd mae'r dosbarthiadau Cymraeg yn cymeryd lle bob nos. Cynhelir Wlpan yma bum noson yr wythnos, a hefyd mae dosbarthiadau'r flwyddyn gyntaf, yr ail flwyddyn a grwpiau yn gwneud lefel 'O' a lefel 'A'.

Cwmni Drama. Mae cwmni drama llewyrchus iawn yn y ganolfan. Ar ôl perfformio'r ddrama 'Pethau Brau' am yr ail waith, fe fydd y cwmni yn cychwyn ar daith o amgylch Cymru. Byddant yn mynd i Gaerfyrddin ar Hydref 11eg, ac wedyn ymlaen i Theatr Felinfach, ac i fyny i Harlech ar y 14eg o Ionawr 1978.

Y Siop. Ceisiwn gadw'r siop ar agor bum noson o'r wythnos, yn gwerthu coffi (gorau'r ddinas) a melysion, ynghyd â rhai recordiau, llyfrau, ac wrth gwrs, pethau Mistar Urdd. Er mwyn gwneud y siop yn lwyddiant, mae'n rhaid wrth wirfoddolwyr. Felly, os oes gennych awr a hanner i sbario un noson, beth am ddod i helpu yn y siop, a mwynhau'r cwmni yr un pryd?

Cysylltwch yn awr â Siân Piper, neu Alan Gwynant, yma yn y ganolfan.

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU

CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD
DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

YR URDD

Cynhaliwyd y pwyllgor cyntaf o'r flwyddyn ysgol gyfredol yn y Ganolfan, nos Lun, Medi 19. Cymerwyd y gadair gan Mr. Cyril Davies yn absenoldeb y Cadeirydd, Mr. Garwyn Davies. Croesawyd Mr. Alwyn Ffransis Jones, trefnydd y mudiad yn Ne Morgannwg a Gwent.

Da oedd gweld, hefyd, nifer o wynebau newydd yn y pwyllgor. Cadarnhawyd penderfyniad blaenorol i gynnal Gwasanaeth Nadolig ym mis Rhagfyr, ac fe geir y manylion perthnasol gan Mrs. Anita Davies a Mrs. Jenny Anetts yn ddiweddarach yn y tymor. Penderfynwyd cynnal yr Eisteddfodau cylch ar y 4ydd o Fawrth a'r Eisteddfodau sir ar y 10 a'r 11eg o Fawrth.

DYMA GYFLE ARALL I FWYNHAU CERDD JOHN ROBERTS WILLIAMS A GLYWYD AR Y RADIO SADWRN OLAF EISTEDDFOD WRECSAM.

Er mwyn cael gorffen yr wythnos yn dwt
Wele'r terfynol Sadyrnol bwt
Am feirdd a chantorion ac am
Y Genedlaethol yn Wrecs-am —
Pob cerdd heb fod cystal â Homer a Horas,
Ond llychlyd hefyd yw llymdir Boras —
Lle gwaeddwyd "Heddwch" ar alwad corn gwlad
Ar gerrig a choncrid hen faes y gad.

Utgyrn yn seinio o'r pafiliwn crand,
A'r pentrefi cyfagos — pawb a'i fand.
Rhos a Gresford a Bwcle'n cael sgôp,
Band o bobman ond Band o Hope.
A synnu ar synnu wrth weld fath bafiliwn
A faint gostiodd hwnnw? medde pawb — ai miliwn?
Ac yn wir i chi, nid chwarae plant
Fydd talu amdano heb goblyn o grant.

Ond Alun Talfan a Tom Jôs
Rhyngoch, mi ddylech ddatrys y pôs.

Neu trowch am help at y pigwyr pocedi
Sy ag arian steddfodwyr lond pwcedi
Yn saff yn eu meddiant — swm anrhaethol,
Digon i glirio'r ddyled genedlaethol.

Fe aeth coron a chadair y brifwyl hon
Mewn môr o frwdfrydedd o Don i Don.

A chofiwn hefyd, mewn tipyn o sioe
Am dywysogion a henfeirdd ddoe
Gan anrhydeddu'r ddau hen bar,
Mathonwy Hughes a Gwilym R.

Ac yma'n arwain, un hen law,
Ddechreuodd yn Niwbwrch, mil naw tri naw.
Pawb wedi mynd oedd gydag ef gynt —
Caerwyn a Chludach — i'r pedwar gwynt.
Meic Parry'n unig sy yma o hyd
Yn arwain ac arwain hyd ddiwedd y byd.

Rhwng holl dafoli y Babell Lên,
Oedfa o straeon i godi gwên.
Ond dyma a lonodd pob bron, pob gwedd —
Saith mil o englynion cerrig bedd.
A phawb yn ymlafnio yng nghrafangau
Y mawr ddiddanwch sydd yn yr angau,
A'r geiriau eglur sy tan yr ywen
Yn gliriach na cherddi Euros Bowen.

A thawel yng nghornel ystafell y wasg
Wrth led-ganolbwyntio ar ei dasg
O oleuo darllenwyr y Teli-graff
A chadw ei bwdl yn sownd wrth raff
'Roedd Caradog Pritchard, mor syber â Paul,
Yn cofio hanner can mlynedd yn ôl,
A'r gynta o'r tair coron fu ar ei ben
Cyn dyddiau y Bryn sy ar y pren.

Ac yn y fan hyn rhaid i mi orffen y codl
A hynny'n unig oherwydd prinder odl
Ffarwel i chi felly. Cadwch y ffydd,
Mi gwela i chi nesa yng Nghaerdydd!

JOHN ROBERT WILLIAMS.

NEWYDDION CWM RHYMNI

IDWAL JONES

Yn ddiweddar, yn dilyn chwe mis o waeledd yn Ysbyty Llandochau, bu farw y brawd Idwal Jones, Nelson. Bu'n brifathro Ysgol Gymraeg Caerffili ers ei sefydlu. Prin fod angen cyfeirio at waith a chyfraniad aruthrol Mr. Jones i fywyd ac i Gymreictod yr ardal, nid yn unig trwy ei waith beunyddiol ond hefyd o fewn y gymdeithas yn Nelson a Chaerffili. Syfrdanwyd y Cwm drwyddo pan glywyd gyntaf am ei waeledd ac yntau yn anterth ei ddyddiau ond 'mwy trist na thristwch' oedd y newyddion terfynol diweddar. Bydd llawer cymdeithas ac achos yn dlotach o golli ei ddylanwad a'i gefnogaeth ac mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad gyda'i deulu yn eu profedigaeth.

CERRIG W.J.

"Cerrig Milltir ein Llên" yw testun deg darlith W.J.Jones yn rhaglen Cylch Diwylliannol Caerffili eleni. Mae cyfle i bawb fynegi barn a mwynhau'r trafodaethau brŵd sy'n nodweddu'r cyfarfodydd dan ofalaeth W.J. ac estynir croeso arbennig i aelodau newydd — o bell neu agos — i ymuno â'r Cylch. Trefnir y rhaglen dan nawdd yr Adran Efrydiau Allanol a chodir tâl aelodaeth o ddwy bunt a chweugain am y flwyddyn lawn. Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan yr Athrawon, Mill Rd., am chwarter wedi saith. Dyddiadau'r ddau gyfarfod nesaf yw Hydref 17 a Hydref 31 (y ddau ar nosweithiau Llun).

PANTYCELYN YM MHENYRHEOL

Mae Gŵyl Gelfyddydol Cwm Rhymni, a drefnir yn flynyddol gan y Cyngor Ardal, yn cynnwys noson Gymraeg am y tro cyntaf eleni. Comisiynwyd Cwmni Theatr i berfformio drama yn dwyn y teitl 'Drws Priodas', yn portreadu bywyd a gwaith Pantycelyn. Bydd y perfformiad am 7.30 p.m. ar nos Fawrth, Hydref 25, yng Nghanolfan Penyrheol, Caerffili. Y pris mynediad fydd 70c a bydd croeso mawr i ymwelwyr â Chwm Rhymni y noson honno. Tocynnau ar gael ymlaen llaw gan y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus (Ffôn: Hengoed 812241).

GENI

Llongyfarchiadau yn gyntaf i Rita a Gareth Jones, Senghennydd, ar enedigaeth mab, Geraint Wyn. Bu Rita, hyd yn ddiweddar (!), yn weithgar iawn fel ysgrifenyddes Cymdeithas Gymraeg Cwm yr Aber. Yr ysgrifennydd newydd yw Moi Parri, Ysgol Ifor Bach. Llongyfarchiadau yn ail i Elin a John Owen, Caerffili, ar enedigaeth mab, Rhys, yn frawd i Llinos Wyn.

Dyma'r gân agoriadol yn y Rifiw gan Aelwyd Caerdydd, a berfformiwyd yn Theatr Bute.

Y GÂN AGORIADOL

Ni yw'r bois mewn gwyrdd glas a gwyn,
Y bois i'ch difyrru chi!
Pregethwyr, darlithwyr, a chrach y BBC,
Aelodau Seneddol, criw o HTV.
Bob Awst fe ddown ni mewn gwisg hir fel hyn,
A'n traed ni mewn wellingtons gwyn.
Ni yw'r bois mewn gwyrdd glas a gwyn,
Y bois i'ch difyrru chi.

Am wythnos bob Awst — wel,
Y ni yw'r dynion mawr;
Am weddill y flwyddyn down yn ôl i lawr
I fod yn ddynion di-nod fel y chi;
Ond pan daw'r wyl — 'nôl fyddwn ni!
Yn lordio hi mewn gwyrdd glas a gwyn,
Y bois i'ch difyrru chi.
G, O, R, S, E, Dd;—
Y bois i'ch difyrru chi!!!!

TAIR DRAMA NEWYDD

gan W.S. Jones

JOHN BRYIMAR HUWS (dydd Mawrth 18 Hydref am 10.35 p.m.).

Drama yw hon wedi'i seilio ar stori fer o waith W.S. Jones sy'n adrodd hanes dechrau addawol a diwedd rhithiol gyrfa newyddiadurol y prif gymeriad.

John Bryimar Huws (John Ogwen), y "newyddiadurwr" amlochrog uwch cinio bach "preifat" efo Ledi Wyn (Christine Pritchard).

Y FAINC (dydd Mawrth 25 Hydref am 10.35p.m.).

Nid mainc gyffredin mo'r fainc yng nghanol y pentref perthyn iddi rinweddau amlwg a rhinweddau cyfriniol...

Y GADAIR OLWYN (dydd Mawrth 1 Tachwedd am 10.35p.m.).

Druan o'r hen daid yn ei gadair olwyn. Mae o'n ddiymadferth, yn swnllyd ac fawr o neb a gair da i ddweud amdano..... Ond eto i gyd, mae Taid yn cael rhyw effaith ryfedd ar y teulu.

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.

Gwaelod y Garth

Ar fûr festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth, fel ar furiau nifer o gapeli o gwmpas y wlad, y mae nifer o luniau. Portreadau yw'r rhain o'r gorffennol yn darlunio cyn-weinidogion yr Eglwys. Maent yno er coffa i'r gweithwyr fu'n llafurio yn y winllan ac er mwyn ein hatgoffa o'n hetifeddiaeth a'n hysbrydoli ni i frwydro ymlaen y dyddiau yma.

Mae un o'r lluniau sy' ar y mûr yn portreadu y diweddar Barchg. R.G. Berry. Bu ef yn weinidog ar Eglwys Bethlehem o 1896 hyd 1944. Ac mae pawb sy'n hyddysg ym myd y ddrama yn gwybod am ei gyfraniad ef i'r ddrama yng Nghymru yn y rhan gyntaf o'r ganrif hon. Ac er fod nifer o aelodau'r Eglwys yn dal i gyfeirio'n annwyl ato fel 'Wncwl Berry' ac yn amlwg wedi ei adnabod yn dda, teimlwyd y dylid dechrau tymor y Gymdeithas Capel drwy wahodd Mr Pedr Mcmullen i ddarlithio ar "Gyfraniad y Parchg. R.G. Berry i'r Ddrama Fer". Mae Mr Pedr Mcmullen yn astudio yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ac mae wedi gwneud astudiaeth arbennig o gyfraniad Y Parchg. R.G. Berry i lenyddiaeth Gymraeg.

Cafwyd noson arbennig o dda ar 21 Medi dan arweiniad y siaradwr gwadd. Fe aeth â ni ar hyd lwybrau'r ddrama fer a dangos inni fel yr oedd Y Parchg. R.G. Berry wedi arloesi mewn rhai meysydd ac hefyd wedi codi'r ddrama fer o'i dechrau primatif a'i meithrin i fod yn gyfrwng effeithiol. Cafwyd cyflwyniad dramatig o rannau o'i ddramau drwy gymorth Delyth Tomos, Rhian Jones, a Dr. Dafydd Huws. Cafwyd noson lwyddianus dros ben a chafodd y deg ar hugain oedd wedi ymgynnull, noson i'w chofio.

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar 18 Hydref pryd y ceir noson gerddorol gyda Delyth Tomos, Gillian Green, ac Arwel George. Mae hon hefyd yn argoeli i fod yn noson dda, ac y mae gwahoddiad agored i bawb ymuno â ni, nid ydym yn cyfyngu'r Gymdeithas i aelodau'n unig.

RHYS TUDUR

CAERDYDD YN YR OESOEDD CANOL

gan J. Gwynfor Jones



Yn meddwl y rhan fwyaf o bobl nad ydynt erioed wedi ymweld â Chaerdydd, dinas yw hi sydd wedi ei lleoli ynghanol gwlad y pyllau glo, cyrchfan i'r sawl a fyn weld y fagddu ddiwydiannol, a mangre wedi ei gorchuddio dros y blynyddoedd â llwch y diwydiant a fu'n gynhaliaeth mor angenrheidiol iddi. Y mae'n bur debyg mai'r cysylltiad annatod rhwng Caerdydd a phrif ddiwydiant cymoedd de-ddwyrain Cymru ddiwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif bresennol sy'n gyfrifol i raddau pell iawn am gamsynied o'r math hwn. Mewn gwirionedd, bwrdeistref fechan a chanoloesol ei chymeriad oedd Caerdydd ar un adeg — canolfan teyrnas Gymreig ac wedi hynny prif dref arglwyddiaeth ffiwdal Morgannwg. O 1536 ymlaen y hi oedd tref Sir Forgannwg.

O safbwynt daearyddol, nid yw'r ddinas yn ffurfio rhan o'r cymoedd o gwbl. Mewn gwirionedd, saif gryn bellter i ffwrdd oddi wrth y pwll glo agosaf ati yn Nantgarw. Er hynny, y mae'n wir dweud wrth reswm mai cynnyrch glofaol y cymoedd hynny a barodd y twf arswydus ym maint a phwysigrwydd Caerdydd gan mai aber afon Taf oedd y man mwyaf addas ar gyfer allforio'r nwyddau crai i bedwar ban byd. Yn ychwanegol at hynny, fodd bynnag, yr oedd i'r dref hynodrwydd arall sy'n ymestyn yn ôl ganrifoedd yn rhinwedd ei safle delfrydol ar aber yr afon gan mai yno y gallai gwahanol ddiwylliannau cyfandir Ewrop gyd-gyfarfod a ffynnu.

Yn y rhan yma o Gymru fe gymysgodd elfennau o wahanol ddiwylliannau y cyfnodau cynhanesiol â'i gilydd. Daethant yn bennaf o arfordiroedd gorllewin Lloegr, y cyfandir ac Iwerddon, a bu i safle daearyddol Caerdydd gymryd rhan allweddol yn ei thwf fel canolfan drefol a masnachol. Adeiladwyd caer fechan yno gan y Rhufeiniaid oddeutu 75 O.C. wedi iddynt orchfygu llwythau'r Silwriaid, ac y mae'r enw 'Caerdydd' yn tarddu o'r gaer ar lannau'r Tâf a sefydlwyd ar yr hen ffordd Rufeinig a gysylltai Caerloyw a Chaerfyrddin. Ffurfiant yr enw yw Caer sy'n dod o'r gair *tam-i, ffurf enidol yr enw Brythonig *tam-os (taf). Daeth y ffurf bresennol 'Caerdydd' i fod trwy'r newid tafodieithol lleol o 'f' i 'dd', and nid oes dystiolaeth o'r ffurf newydd cyn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Gweithredodd y gaer fel porthladd amddiffynnol fechan rhag ymosodiadau'r Sacsoniaid a'r Gwyddelod, a cheir peth tystiolaeth fod y Sgandinafiaid wedi ymsefydlu yno yn ystod y ddwy ganrif cyn yr oruchafiaeth Normanaidd. Fe ymddengys mai o ogledd Ewrop y daeth tarddiad 'Womanby St.' sy gyferbyn a'r castell ('Hundemanby'' yn wreiddiol) ac sy'n awgrymu fod canolfan fasnachol yno yr adeg honno, ond gan nad oes enghraifft o'r enw gwreiddiol i'w gael yn gynharach na 1280 ni ellir profi hynny'n ddiamheuol. Yn niwedd yr unfed ganrif ar ddeg, ganrifoedd wedi ymadawiad y lluoedd Rhufeinig â'r wlad, codwyd castell pren mwnt a beili ar safle'r hen gaer gan yr arglwydd Normanaidd, Robert FitzHamo, Iarll Caerloyw ac un o arglwyddi cynnar y Mers ar ororau Cymru. Daeth y castell hwn – a ailadeiladwyd mewn carreg yn ddiweddarach — yn ganolfan i arglwyddiaeth ffiwial Morgannwg, un o arglwyddiaethau grymus y Mers, ac i'r de o'r castell y tyfodd bwreistref a muriau o'i hamgylch, a rhoddwyd breintiau iddi trwy gyfrwng siarteri gan nifer o'r arglwyddi lleol o tua 1100 ymlaen. Y tu allan i'r muriau yn ymestyn i gyffiniau Llanedeyrn, Llysfaen, Llanishen, Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd (fel y gwyddys amdanynt heddiw) sefydlwyd arglwyddiaeth Caerdydd, sef cwmwd Cibwr a ffurfiai ran ddeheuol cantref Senghennydd. Os edrychwn ar gynllun John Speed, y cartograffydd enwog, o Gaerdydd yn 1610 y mae'n amlwg fod cynllun yr hen fwrdeistref yn parhau hyd yn oed i'r cyfnod hwnnw. Sefydlwyd y dref ar drothwy'r ddeuddegfed ganrif, ac yn y ganrif ddilynol amcangyfrifir bod y boblogaeth oddeutu 2,000. Gweithredodd fel canolfan amaethyddol i wlad doreithiog Bro Morgannwg ac fel cyrchfan masnachol a chrefyddol yn ne-ddwyrain Cymru. Etholwyd swyddogion tebyg i'r Maer ynddi ac oherwydd ei chysylltiad agos â Môr Hafren bu masnachu cyson â Bryste a Gwlad yr Haf. Yn Llandâf y sefydlwyd un o esgobaethau cynnar y Normaniaid yng Nghymru ond yr oedd traddodiad crefyddol y fangre gysegredig yn ymestyn yn ôl i gyfnod y saint cynnar. Yn y dref ei hun safai eglwysi y Santes Fair a Sant Ioan ac oddi allan i'r muriau y sefydlodd y Brodyr Duon ac Urdd y Ffransisgiaid eu mynachtai. Ychwanegwyd y tŵr perpendiclar hardd a welir ar eglwys Sant Ioan ym mlynyddoedd canol y bymthegfed ganrif gan Iarlles Warig. Fe ymddengys mai John Hart, gŵr a fu'n gyfrifol am adeiladu tŵr eglwys Wrecsam a San Steffan ym Mryste, oedd y pensaer. Gwnaed cyfnewidiadau helaeth hefyd i'r castell rhwng 1425 a 1429 gan Richard Beauchamp, Iarll Warig, a adeiladodd y tŵr wythonglog urddasol ger mur gorllewinol y castell fel rhan o'r adeiladau y gellid byw ynddynt. Gan mai Seisnig a Normanaidd yn bennaf oedd deiliaid y dref nid rhyfedd i arglwyddi Cymreig megis Ifor Bach o Senghennydd (1158) ac Owain Glyndŵr (1404) ymosod yn bur chwyrn arni. Er hynny, ffynnodd y dref yn rhinwedd ei masnach, a'i ffeiriau a'i marchnadoedd, ac ar ddiwedd y bymthegfed ganrif canodd Rhys Brydydd gywydd i Siôn Tyrel, un o fasnachwyr Caerdydd, a chyfeirio'r un pryd at urddas a 'dysg' 'gwŷr Caerdyf' yn y cyfnod hwnnw. Er cymaint y dylanwadau estron a fu ar dref Caerdydd yn yr Oesoedd Canol cafwyd enwau Cymraeg ar nifer o'r heolydd a chyrchfannau eraill o fewn i'r muriau megis Heol-y-Caws (Wharton St.), Porth-y-Llongau (y Porth Deheuol), Heol Plwcca (City Rd.) a'r Crwys, sef y groes ar ffin ogledd-ddwyrain y dref (man cyfarfod Heol-y-Crwys a Cathays Terrace heddiw). Ar gyrion y Waun Fechan y codwyd crogbren y dref (man cyfarfod Heol-y-Crwys ac Albany Rd. heddiw) a gelwid tameidiau o'r tir a gaed yno yn Plwcca Halog, Pwll Halog a Chae Budr, y cyfan yn ein hatgoffa am gysylltiadau erchyll y llecyn hwnnw.

Wedi'r Ddeddf Uno yn 1536 daeth Caerdydd, a oedd yn parhau i fod yn dref fasnach fechan iawn, yn ganolfan newydd i sir Forgannwg ac ynddi y sefydlwyd prif adrannau gweinyddol y sir, megis y llysoedd cyfraith. Yr oedd canrif y Tuduriaid fodd bynnag, yn gyfnod tra diddorol yn nhŵf Caerdydd fel y cawn weld yn y rhifyn nesaf.

Y "bois" mewn gwyn yn cael eu gwynt atynt yn ystod perfformiad o 'Rifiw' yr Aelwyd. (Gweler tud. 10.)

THEATR COLEG Y BRIFYSGOL CAERDYDD
SHERMAN
THEATRE OF UNIVERSITY COLLEGE CARDIFF

THEATR CYMRU

TACHWEDD 8-9 7.30p.m.

YR ADDEWID

cyfieithiad Cymraeg Gareth Jones, o'r ddrama gan Arbuzov — un o ddramodwyr blaenllaw Rwsia.

TACHWEDD 10-12 7.30p.m.

DRWS PRIODAS

gan Gruffudd Parry. Stori am gariadon, a golwg ar fywyd trwy lygad William Williams, Pantycelyn.

Swyddfa Docynnau
CAERDYDD 25855
Llun-Sad 10a.m.-6p.m.

SÊL WEDI'R APÊL

Hyd yn hyn nid yw'r tymor wedi bod yn llewyrchus iawn i'r clwb ar y maes chwarae. Nid yw'r tîm cyntaf wedi ennill gêm (hyd yma) ond mae 'r ail a'r trydydd tîm wedi ennill un gêm yr un.

Ar yr ochr gymdeithasol fe gawsom gwis yng Nghlwb Rygbi Rhiwbeina, dan ofal Alun Jenkins, ac nid oedd amheuaeth ein bod ni yn bencampwyr yn y maes hwn gan i ni orchfygu clybiau Rhiwbeina a St. Alban o naw pwynt clir. Wrth gwrs mwynhawyd y noson yn fawr iawn!

Rhaid diolch hefyd i'r rhai ohonoch a gymrodd yr "APÊL" yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* o ddifri. Braf o beth yw gweld criw o Gymry yn sefyll ar y llinell ystlys yn bloeddio nerth eu pennau yn Gymraeg, yng nghanol holl Seisnigrwydd pnawn Sadwrn.

Dyma erfyn arnoch unwaith eto i ddod i'n gweld, ac os oes diddordeb gennych, dyma restr o'r gemau a'r achlysuron cymdeithasol am y ddau fis nesaf:

TÎM 1af. Hydref 8 — Coleg Addysg Caerdydd (Llandâf).
Hydref 15 — Coleg Prifysgol Caerdydd (Fhwrdd).
Hydref 22 — Newbridge United (Llandâf).
Hydref 29 — Rhiwbeina (Ffwrdd).
2il DIM: Hydref 8 — Coleg y Brifysgol (Ffwrdd).
Hydref 15 — RTB Glyn Ebwy (Llandaf).
Hydref 22 — ICI Pontypwl (Ffwrdd).
Hydref 29 — Rhiwbeina (Llandâf).
TIM 1af : Tachwedd 5 — Ffwrnes (Llanelli) (Ffwrdd).
Tach. 12 — Pontllanffraith (Ffwrdd).
Tach. 19 — Treforgan (Llandâf).
2il DIM: Tachwedd 5 - Maesteg Quins (Llandâf).
Tach. 12 — Cilfynydd (Llandâf).
Tach. 19 — Mosanto Chemical (Ffwrdd).

Ar yr ochr gymdeithasol, mae noson Wisg Amrywiol (Ffansi dres) wedi'i threfnu ar gyfer nos Wener, 14 eg o Hydref, yn y Clwb Trydan, ac yna ar yr 11eg o Dachwedd mae Twmpath Dawns i'w chynnal yn neuadd Eglwys Sant Pedr (rhwng Heol Richmond a Heol y Ddinas). Plîs, plîs gwnewch ymdrech i ddod i'r ddau achlysur.

CHWARAE'N TROI'N CHWERW

GWAELOD Y GARTH I : CLWB CYMRIC 4.

Anturiwyd o'r brifddinas allan i awyrgylch bentrefol y wlad a hynny mae'n siwr yn codi cryn hiraeth ar nifer ohonom. Nid amharodd hynny ar ein chwarae, fodd bynnag, a chaed buddugoliaeth weddol rwydd erbyn y diwedd.

Daeth y gôl gyntaf trwy gamgymeriad un o amddiffynwyr ein gwrthwynebwyr a beniodd y bêl heibio i'w geidwad ei hun. Digwyddodd hynny yn y munudau cyntaf ond bu raid aros cryn dipyn cyn sgorio mwy a diogelu'r gêm.

Sgoriwyd y dair gol arall gan Huw Davies, arwr y gêm, Rhodri Jos, a Rhion Jos, yntau'n chwarae ei gêm gyntaf i'r Clwb. Cic gosb yn yr eiliadau olaf, pan fynnodd y dyfarnwr fod un o'n gwrthwynebwyr wedi'i wthio yn y blwch, a roes i Waelod y Garth eu hunig gôl.

CLWB CYMRIC 5 : LLANDAF T.I.

Ar waethaf y sgor roedd hon yn gêm galetach na honno yng Ngwaelod y Garth. Dylid nodi, er hyn, mai'r elfen galetaf yn y gêm oedd dyrnod ein canolwr (wna i ddim ei enwi, ond mae newydd symud i Bentyrch) a loriodd eu canolwr hwy. Roedd hynny'n dilyn cyfres o daclau mochaidd gan y gwrthwynebydd arbennig hwnnw, felly chafodd e ddim ond ei haeddiant. Ar ôl dadebru doedd ganddo fawr o galon i fynd ymlaen â'r frwydr ac ymadawodd a'r maes.

Cyn hyn i gyd roeddem wedi croesawu Dafydd Mona yn ôl i'r tîm ar ei ymweliad â'r ddinas. Hon oedd gêm gyntaf y tymor hefyd i John Hardy. Fe lwyddodd e a John Mona i sgorio dwy gôl yr un. Sgoriwyd y llall a'r gyntaf o'r pump gan Eynon Williams, hynny ychydig cyn i ganolwr blaen Llandaf benio gôl dda. Buddugoliaeth arall felly a dechrau tra addawol i'r tymor newydd. Os hoffai unrhyw un ymuno â ni deued i Ysgol Cantonian unrhyw nos Fercher erbyn 6p.m., neu ffonied yr ysgrifennydd Eynon Williams (Caerdydd 752432). Bydd croeso i bawb a chyfle i chwarae am le yn y tim cyntaf neu'r ail.

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917. Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262. C874